Estyn



# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Kingsland

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2023**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Kingsland yn ysgol groesawgar sydd ag ethos cynhwysol, hapus a gofalgar ble mae pawb yn cydweithio'n ddiflino fel rhan o gymuned ddysgu bwrpasol. Mae'r disgyblion yn chwarae rôl flaenllaw ym mywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn ymdrin ag eraill gyda pharch a chwrteisi canmoladwy ac mae eu hymddygiad yn wych. Mae ethos diogelu'r ysgol yn gryf ac mae'r disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel wrth eu gwaith a'u chwarae.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol wrth ddatblygu eu medrau rhifedd, Saesneg a digidol o'u mannau cychwyn. Mae disgyblion yn dueddol o ddefnyddio Saesneg fel iaith ar gyfer cymdeithasu a chyfathrebu â chyfoedion ac oedolion yn yr ysgol. O ganlyniad, mae hyn yn llesteirio datblygiad eu medrau cyfathrebu Cymraeg.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn cynnig ystod dda o brofiadau symbylus a diddorol sydd yn adlewyrchu'r cyd-destun lleol yn effeithiol. Mae barn y disgybl yn rhan bwysig o'r broses gynllunio, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn frwdfrydig wrth ymroi i'w profiadau dysgu. Mae athrawon a staff eraill yn meithrin perthynas weithio gynhyrchiol ac annwyl â'r disgyblion sydd yn seiliedig ar barch ac ymddiriedaeth. Mae awyrgylch positif yn y dosbarthiadau ac maent yn gymunedau dysgu pwrpasol a byrlymus. Ar y cyfan, mae staff yn defnyddio ystod briodol o dechnegau addysgu effeithiol. Er hyn, nid yw adborth gan athrawon bob tro yn targedu'r camau nesaf yn y dysgu yn ddigon effeithiol.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sydd yn blaenoriaethu lles pob disgybl a sicrhau eu bod yn cael y profiadau dysgu gorau posibl. Mae'n rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda chymuned yr ysgol. Mae'r pennaeth yn cael ei gefnogi'n ymroddgar gan staff ac mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu. Mae llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol gyda brwdfrydedd a balchder ac maent ganddynt ymwybyddiaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn darparu cefnogaeth bwrpasol i arweinwyr a staff.

# Argymhellion

**A1 Gwella defnydd disgyblion o Gymraeg llafar**

**A2 Sicrhau bod adborth athrawon yn helpu disgyblion i wella eu gwaith yn effeithiol**

# Beth sy’n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Kingsland |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 196 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 142 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 27 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 26.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 28.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 15.8 |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2017 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/03/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 19/06/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 21/08/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.